

Smyglo Beiblau

Dyfalbarhad / ffyddlondeb

Fyddwch chi'n hoffi stori am smyglwyr? Fel arfer, maen nhw'n smyglo pethau fel tlysau a diodydd. Mae'r stori hon yn sôn am smyglo Beiblau! Mae'r hanes yma yn mynd â ni yn ôl dros bedwar cant a hanner o flynyddoedd. Arwr ein stori ydi William Tyndale.

Roedd Tyndale yn sicr bod Duw yn ei alw i wneud gwaith arbennig. Teimlai y dylai'r bobl gyffredin yn Lloegr fedru darllen y Beibl yn eu hiaith eu hunain, sef Saesneg. Yr adeg hynny dim ond yr esgobion a'r offeiriaid oedd yn gallu darllen y Beibl. Tra oedd yn aros yn Llundain daeth ar draws gŵr cyfoethog iawn o'r enw Humphrey Monmouth. Derbyniodd Monmouth ef i'w gartref gan roi llety iddo, ac amser iddo astudio'r Ysgrhythrau. Arhosodd yno am flwyddyn, yn astudio, pregethu a gwrando ar bregethwyr eraill. Barnai fod safon y pregethu yn isel iawn. Roedd hyn yn gwneud i waed Tyndale ferwi. Dywedodd un waith,

“Cyn pen dim bydd y bachgen sy'n gyrru'r wedd yn gwybod mwy am y Beibl na'r Pab ei hun.” Gwyddai Tyndale y byddai'n anodd iawn iddo gyhoeddi'r Beiblau yn Lloegr, felly aeth drosodd i'r Almaen.

Yn Cologne, daeth ar draws cyhoeddwr oedd yn barod i'w helpu. Ond byddai'n rhaid i bopeth gael ei wneud yn y dirgel. Y gwaith cyntaf oedd cyfieithu'r Testament Newydd. Gan fod Tyndale yn hyddysg yn yr ieithoedd yr ysgrifennwyd y Beibl, sef Groeg a Hebraeg, roedd ef yn gallu cyfieithu o'r ieithoedd gwreiddiol hyn. Yna aethpwyd ati i gyfieithu'r Hen Destament.

Clywodd un gŵr fod yr esgobion yn chwilio am y Beiblau oedd wedi eu smyglo. Aeth i weld un o'r esgobion,

“Oni fyddai'n syniad da, syr, i ni brynu'r Beiblau a dod â nhw drosodd i Lundain i'w llosgi?”

“Syniad da iawn 'machgen i,” atebodd yr esgob. Rhoddodd nifer o'r esgobion arian iddo i wneud y gwaith drostyn nhw. Ond doedd y gŵr hwn ddim yn ffrind i'r esgobion. Ffrind i Tyndale oedd ef a rhoddodd yr arian a gafodd gan yr esgobion i Tyndale i argraffu mwy o Feiblau. Deuai mwy a mwy o Feiblau drosodd o'r

William Tyndale: 1494-1536

cyfandir i Loegr. Cafodd y Testament Newydd ei argraffu yn Worms, ac anfonwyd y copïau i Loegr wedi'u cuddio mewn llieiniau cotwm, sacheidiau o flawd a bwndeli o lin. Roedd galw mawr am y Beiblau hyn ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Ond nid yn unig y bobl ddysgedig oedd yn galw amdany'n nhw, ond y bobl gyffredin yn ogystal.

Un diwrnod bradychwyd Tyndale gan un o'i ffrindiau. Daliwyd ef a'i garcharu mewn dynjwn hen gastell ym Mrwsel. Ar ôl blwyddyn yn y carchar, fe'i llosgwyd wrth y stanc. Geiriau olaf Tyndale oedd, "O Dduw, agor lygaid Brenin Lloegr!"

Ymhen tair blynedd, gorchmynnodd Brenin Lloegr fod Beibl Saesneg i'w roi ym mhob eglwys. Gorchmynnodd hefyd y dylai'r Beibl gael ei ddal ar gadwyn rhag i neb ei ddwyn. Roedd y Beibl wedi ei glymu o gwmpas y ddarllenfa. Gellir dweud na fu marwolaeth William Tyndale yn ofer. Fel yr oedd William Morgan yn 'dad' y Beibl Cymraeg, William Tyndale yn sicr oedd 'tad' y Beibl Saesneg.



"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo ac yn rhoi deall i'r syml."

Salm 119:130



Nawr boed i'r Ysbryd
a roes y gair,
ac a'm galwodd i, gobeithio,
i'w ddehongli,
ei gymhwyso, yn rymus ac yn raslon
i galonnau pechaduriaid.
Amen.



Meddyliwch gymaint mae unigolion yn gallu ei wneud dros Dduw.
Mae'r llyfr hwn yn sôn am sawl unigolyn a weithiodd dros Dduw.
Trafodwch mor bwysig ydi gwerth yr unigolyn.